

Digarbon Rownd 2

Y gronfa ddatgarboneiddio ar gyfer y sector addysg drydyddol yng Nghymru.

Cewstiynau porth ymgeisio

Tudalen 1 – Croeso

Mae'r porth ymgeisio ar-lein hwn yn casglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i brosesu eich cais ar gyfer Digarbon – Cronfa Datgarboneiddio Addysg Drydyddol yng Nghymru.

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau gan y corff cymwys. Cyn dechrau eich cais, rydym yn eich annog i ymgyswngtu â manylion allweddol y cais a geir yn nodiadau cyfarwyddyd a thelerau ac amodau Digarbon. Rydym wedi darparu fideo hefyd yn esbonio'r gronfa a chanllawiau ar sut igwblhau eich cais.

Os hoffech arbed eich cais ar unrhyw adeg i barhau â hi yn hwyrach, gwasgwch y botwm 'arbed drafft' ar waelod y dudalen. Os ydych yn barod i fwrw ymlaen â'ch cais, cliciwch 'nesaf'.

Gallwch ddychwelyd at eich cais drwy glicio ar 'fy ngheisiadau'.

Gweler y botwm hwn yn y brif ddewislen uchod.

Mae polisi preifatrwydd Salix Finance ar gael yma.

Canllawiau ymgeisio ar-lein

I gwblhau'r cais hwn ar gyfer Digarbon – Datgarboneiddio Addysg Drydyddol yng Nghymru, bydd yn ofynnol i chi wneud y canlynol:

- Darparu gwybodaeth gyswllt ar gyfer y swyddi canlynol yn y corff cymwys:
 - o Prif gyswllt – swyddog rhaglen, rheolwr prosiect, neu unigolyn tebyg, sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd, a sicrhau cydymffurfiad â'r cynllun
 - o Cyswllt cyllid – swyddog cyllid sy'n gyfrifol am ddyrannu benthyciadau i'r prosiect,
 - amserlen amorteiddio benthyciadau, a thaliadau/ad-daliadau
 - o Swyddog awdurdodi – pennaeth adran, cyfarwyddwr, swyddog A151, neu swyddog cyfatebol, sy'n gyfrifol am gymeradwyo a noddi prosiectau
- Lanlwytho'r ffurflen gais a'r dogfennau ategol gofynnol.
- Darparu manylion i gadarnhau statws gweithredwr economaidd y sefydliad ac, os oes angen, ymlyniad wrth reolau rheoli cymhorthdal.
- Cyflwyno'ch cais gydag awdurdodiad wedi'i lofnodi gan y swyddog awdurdodi.

- Os bydd ceisiadau yn anghyflawn, heb yr awdurdodiad cywir, os bydd angen dogfennau ategol bellach arnynt neu os na fyddant wedi'u cyflwyno gan y sefydliad cymwys, ystyrir eu bod yn aflwyddiannus.
- Byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd os yw ei gais wedi bod yn aflwyddiannus a pham.

Gall ymgeiswyr ymgeisio eto, a bydd yn cael ei drin fel cais newydd.

Tudalen 2 – Cwestiynau cymhwysio cychwynnol

Rydym am sicrhau ein bod yn cael ceisiadau o ansawdd da ar gyfer Digarbon. Cyn gwneud cais, gofynnwn i chi ddarllen y wybodaeth ar dudalen we'r cynllun yn ofalus a sicrhau eich bod yn gallu ateb yn gadarnhaol i'r canlynol:

Mae'r sefydliad yr wyf yn gwneud cais ar ei ran yn brifysgol neu goleg addysg bellach yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ymwybodol o'r gyfradd llog o 2.05% sy'n cael ei gymhwyso i'r cyllid hwn.

Cymeradwyaeth y Swyddog Awdurdodi

Y swyddog awdurdodi yw'r unigolyn yn y sefydliad cymwys sy'n llofnodi'n derfynol eich cais Digarbon.

Rhaid i'r datganiad canlynol gael ei lofnodi gan y swyddog awdurdodi a'i gyflwyno gyda gweddill yr eitemau yn yr adran Gwybodaeth Ategol isod y gofynnir amdani. Mae'r copi PDF ar gael ar dudalen we y cynllun.

- Rwy'n cadarnhau bod y swyddog awdurdodi wedi cymeradwyo cyflwyno'r cais hwn I Digarbon ar ran ein sefydliad.
- Rwyf wedi darllen nodiadau cyfarwyddyd Digarbon ac yn cytuno i dderbyn y cynnwys.
- Rwy'n cadarnhau y bydd aelod o'r tîm ac, os bydd angen, ymgynghorydd ar gael I ymateb i unrhyw ymholiadau gan Salix o fewn tri diwrnod gwaith, drwy gydol y broses asesu, ac rwy'n deall y gallai methu ag ymateb o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt arwain at ddileu cais ein sefydliad o'r broses asesu.
- Rwy'n cefnogi'r amserlen amorteiddio benthyciad sy'n nodi sut y bydd y benthyciad, gyda llog, yn cael ei ad-dalu gan y sefydliad.
- Rwy'n ymwybodol, unwaith y cytunir ar gyfanswm gwerth y benthyciad, fod angen I unrhyw gostau ychwanegol gael eu cefnogi'n uniongyrchol gan y sefydliad cymwys.
- Mae'r prosiect yn bodloni'r meini prawf "ychwanegol" a nodir yn nodiadau cyfarwyddydny cais.
- Rydym wedi neu byddwn yn dilyn y llwybr caffael y cytunwyd arno ar gyfer y prosiect hwn yn unol ag unrhyw bolisi caffael mewnol ar gyfer ein sefydliad neu'r corff cymwys perthnasol (lle bo'n berthnasol).
- Rwy'n derbyn y bydd manylion ein cais yn cael eu rhannu â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) wedi hynny.

- Rhaid i'r swyddog awdurdodi hefyd lofnodi'r datganiad Gwrth-dwyll a'i gyflwyno ochr yn ochr â gweddill yr adran gwybodaeth ategol isod y gofynnir amdani. Mae'r ddogfen PDF o'r datganiad Gwrth-dwyll ar gael ar y dudalen we Digarbon.

Rwy'n cytuno â'r uchod.

Tudalen 3 – Manylion y sefydliad a manylion cyswllt

Dylid llenwi'r adran hon gyda manylion cyswllt y corff cymwys.

Enw'r sefydliad (nodwch yr enw swyddogol, heb gynnwys acronymau)

Pa un o'r isod sy'n cynrychioli eich sefydliad orau?

- Prifysgol
- Coleg

Cyfeiriad y sefydliad

Cyfeiriad cofrestredig, cyfreithiol y sefydliad, nid safle'r prosiect

Llinell Cyfeiriad 1:

Llinell Cyfeiriad 2:

Dinas:

Cod post:

Sir:

Prif gyswllt:

Swyddog rhaglen, rheolwr prosiect, neu unigolyn tebyg, sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd, a sicrhau cydymffurfiad â'r cynllun

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Teitl swydd:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad:

Manylion yr ymgynghorydd (os yn berthnasol)

Cynrychiolydd o'r sefydliad ymgynghori sy'n gallu ymateb i ymholiadau technegol

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Teitl swydd:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad:

Cyswllt cyllid

Swyddog cyllid sy'n gyfrifol am ddyrannu benthyciadau i'r prosiect, amserlen amorteiddio benthyciadau, taliadau ac ad-daliadau

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Teitl swydd:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad:

Manylion y swyddog awdurdodi

Pennaeth adran, cyfarwyddwr, swyddog AI51, neu swyddog cyfatebol, sy'n gyfrifol am gymeradwyo a noddi prosiectau

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Teitl swydd:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad:

Tudalen 4 – Manylion y prosiect

Teitl y cais:

Gwerth y benthyciad y gofynnwyd amdano:

Dyddiad cwblhau disgwylidig*:

*Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r prosiect yw 31 Mawrth 2028.

Gwybodaeth ategol

Ceir isod restr o'r wybodaeth ategol y gofynnwyd amdani ochr yn ochr â'r ffurflen gais.

Mae'r rhai a nodwyd yn orfodol yn hanfodol ar gyfer y broses asesu a rhaid eu lanlwytho ar adeg eu cyflwyno.

Bydd rhestr o'r dogfennau dymunol, y gellir eu gweld yn llawn yn y nodiadau cyfarwyddyd, yn cael ei defnyddio i gynorthwyo'r aseswr i werthuso'ch cais ac fe'u hawgrymir yn gryf i gryfhau'ch cais. Mae cais mwy cadarn gyda thystiolaeth yn debygol o sgorio'n uwch a bydd ganddo well siawns o gael cyllid. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd yn rhestru geirfa lawn y dogfennau.

Bydd Salix yn gwirio ansawdd ceisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn. Ni fydd cyfle i gyflwyno rhagor o dystiolaeth, sicrhewch fod yr holl ddogfennau yn cael eu lanlwytho ar adeg gwneud y cais.

Rhaid lanlwytho'r dogfennau gorfodol yn unigol yn eu meysydd priodol. Gellir lanlwytho unrhywmwybodaeth ategol sy'n weddill i'r maes gwybodaeth ategol. Sicrhewch fod yr holl ddogfennau ategol wedi'u labelu'n glir ac yn cyfeirio at yr hyn y mae pob dogfen yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth.

Dogfennau gorfodol:

- Ffurflen gais [Excel]
- Astudiaeth dichonoldeb (gan gynnwys: arolygon safle, sgematigau, arolwg o'r system ddsbarthu gwres gyfredol, tystiolaeth o effeithlonrwydd y system(au) gwresogi presennol, tystiolaeth o gapasiti trydanol presennol, tystiolaeth o'r ardal wresogi (m2) a thystiolaeth o'r defnydd presennol o danwydd ffosil a thrydanol. [Folder Zip – ffeiliau
- lluosog]
- Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DECs) [PDF]
- Cyfrifiadau arbed ynni [Excel]
- Arolwg colli gwres brig a thystiolaeth o effaith ar golli gwres adeiladau [Word/Excel/PDF]
- Costau'r prosiect gan gynnwys cost ddangosol yr holl fesurau sydd wedi'u cynnwys yng nghwmpas y prosiect, dadansoddiad o'r costau a'r arian wrth gefn ymgeiswyr a ddyrannwyd i'r prosiect [Word/Excel/PDF]
- Rhaglen prosiectau [Excel/PDF]
- Cofrestr risgiau [Excel]
- Datganiad swyddog awdurdodi [PDF]
- Datganiad gwrth-dwyll [PDF]

Gwybodaeth ategol

Cyfeiriwch at Atodiad 2 o'r nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ategol ddymunol.

Nodwch os ydych yn gosod unrhyw asedau cynhyrchu ynni newydd - bydd gofyn i chi lanlwytho cynllun rheoli perfformiad o dan y maes gwybodaeth ategol.

Tudalen 5 – Rheolau rheoli cymorthdaliadau

Gofynnir i ymgeiswyr adolygu'r wybodaeth isod ac ateb y cwestiynau canlynol am reolau rheoli cymhorthdal. Mae rhagor o wybodaeth am y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am fentrau yng nghyd-destun pwerau cyhoeddus y cyfeirir atynt yng nghanllawiau statudol ar gyfer cynllun rheoli cymhorthdal y DU.

Mewn rhai achosion, gall sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu fel mentrau fel y'u diffinnir yn Adran 7(1) o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Rhaid i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus a ystyrir yn 'gyfranogwyr economaidd' o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau rheoli cymorthdaliadau. Bydd sefydliad sector cyhoeddus yn fenter os yw'n ymwneud â gweithgarwch economaidd drwy gynnig nwyddau neu wasanaethau ar farchnad.

Ni allwn roi cyngor ar sefyllfa sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gwneud cais i'r cynllun. Cyfeiriwch at ganllawiau rheoli cymorthdaliadau Llywodraeth y DU neu ymgysylltwch â'ch cynghorwyr cyfreithiol wrth gwblhau eich cais.

A yw eich sefydliad yn gweithredu fel cyfranogwr economaidd mewn perthynas ag unrhyw ran o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn eich cais?

Ydy

Nac ydy

Os ydy, rhowch:

- a. esboniad o beth yw'r gweithgarwch economaidd hwn; a
- b. swm y cyllid a geisir ar gyfer y gweithgarwch economaidd hwn (£) yn eich cais.

Bydd angen i unrhyw gymorthdaliadau gydymffurfio ag egwyddorion Erthygl 366 y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad (TCA) a gofynion tryloywder yn ôl yr angen. Y lefel uchaf o Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA) y gall cyfranogwr economaidd ei gael yw £315,000 mewn unrhyw gyfnod o

dair blynedd. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n gyfranogwyr economaidd gwblhau datganiad Cymorth

Ariannol Lleiaf, a fydd yn cael ei nodi yn y cytundeb benthyciad.

Cadarnhewch a yw eich sefydliad wedi cael mwy na £315,000 o Gymorth Ariannol Lleiaf yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Do

Naddo

Cymhorthdal Anuniongyrchol

Os yw menter yn talu'r holl filiau ynni mewn adeilad, neu ran ohonynt, dylid datgan hyn isod. Mae hyn oherwydd y bydd unrhyw ostyngiad yn y biliau ynni hyn, o ganlyniad i waith Digarbon, yn gymhorthdal anuniongyrchol.

A oes unrhyw fentrau'n talu unrhyw un o'r biliau ynni yn yr adeilad?

Oes

Nac oes

Os oes, datganwch yng ngham 5a adran Llywodraethu'r ffurflen gais a rhowch fanylion unrhyw fentrau sy'n talu'r cyfan, neu ran o'r biliau ynni mewn adeiladau sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn.

Tudalen 6 – Datganiad cyn cyflwyno cais

Rwy'n cadarnhau y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau cyn dydd Gwener 31 Mawrth 2028

- Rwy'n cadarnhau y bydd fy sefydliad yn ad-dalu'r benthyciad cyfan erbyn 31 Hydref 2048
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall yr holl delerau ac amodau a nodir isod:
- Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais, gwybodaeth arbed ynni a gwybodaeth ategol yn wir ac yn gywir hyd eithaf ein gwybodaeth.
- Rydym yn deall y bydd hi'n ofynnol i ni ddarparu adroddiadau chwarterol i Salix ar gynnydd y prosiect, ynghyd â thystiolaeth resymol o gostau a phrawf bod taliad wedi'i wneud i gyflenwyr a chontractwyr.
- Rydym yn deall, os bydd amserlenni neu gwmpas prosiect yn newid, fod yn rhaid i ni roi gwybod i Salix.
- Rydym yn cytuno i Salix rannu gwybodaeth am ein prosiectau a ariennir â chleientiaid presennol ac yn y dyfodol, yn unol â thelerau'r hysbysiad preifatrwydd, sydd ar gael ar wefan Salix.
- Rydym yn cydsynio i Salix rannu ein data â Llywodraeth Cymru ac unrhyw gyrff rheoleiddio perthnasol.
- Rydym yn cadarnhau ein bod yn rhoi caniatâd i Salix rannu ein manylion cyswllt ag unrhyw gontractwr a benodir gan Salix neu Lywodraeth Cymru i werthuso'r cynllun hwn.

- Rydym yn cadarnhau nad oes cyllid dwbl ar gyfer y prosiect hwn (h.y. nad yw dwy ffynhonnell o gyllid y llywodraeth yn cael eu defnyddio i sybsideiddio'r un gwariant cyfalaf).
- Rydym yn cadarnhau y bydd y cyllid ar gyfer y prosiect yn cael ei lywodraethu gan delerau ac amodau cytundeb benthyciad Digarbon.

Cadarnheir bod y datganiadau uchod yn wir:

Sut glywsoch chi am Digarbon?

- Gan gorff sector cyhoeddus arall
- Gwefan Salix
- Wedi defnyddio Salix yn y gorffennol
- Drwy ymgynghorydd/cyflenwr
- Cylchgrawn/cyhoeddiad arall
- Digwyddiad/cynhadledd
- Y cyfryngau cymdeithasol
- Neges e-bost gan Salix
- Arall

Wnaethoch chi fynychu unrhyw un o weminarau Digarbon?

Do

Naddo

Tudalen 7 – Awdurdodiad ac ymrwymiad

Llofnodwyd gan y cyswllt yn y corff sector cyhoeddus:

Llofnod: *

Enw mewn priflythrennau: *

Ar ran (sefydliad): *

Dyddiad llofnodi: *